

HANES - YNYSOEDD PRYDAIN

Amser - 1.5 awr

Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B. Mae seren * yn nodi cwestiwn ar Hanes Cymru.

ADRAN A

1. Mae haneswyr yn honni eu bod yn defnyddio ffynonellau gwreiddiol mewn dull 'beirniadol'. Beth yw ystyr hyn?
2. Sut ddylai haneswyr benderfynu rhwng y ffeithiau am y gorffennol sydd o bwys, a'r rhai nad ydynt o bwys?
3. Pa rwystrau sy'n sefyll yn ffordd ysgrifennu hanes bywyd pobl gyffredin, a sut y gellid gorchfygu'r rhwystrau hyn?
4. A yw haneswyr ar unrhyw adeg yn gallu bod yn ddi-duedd wrth ysgrifennu hanes?
5. Ym mha ffyrdd y mae gwybodaeth hanesyddol yn ddefnyddiol i'r gymdeithas?
6. A yw hanes yn cefnogi'r achos o blaid Brexit?

ADRAN B

Y Cyfnod Cynnar a'r Oesoedd Canol

7. I ba raddau y gallwn ni ddisgrifio goruchafiaeth Lloegr ar Ynysoedd Prydain yn yr oesoedd canol fel 'ymerodraeth gyntaf Lloegr' (R.R. Davies)?
8. A oedd 1066 yn drobwynt gwirioneddol yn hanes Lloegr?
9. Pa mor bwysig oedd y Pla Du fel un o'r elfennau a ffurfiodd Brydain tua diwedd yr oesoedd canol?
10. A oedd y Brenin John yn deyrn, neu ai ddim ond yn anlwcus ydoedd?
11. Pam y parodd y Rhyfel Can Mlynedd mor hir?
12. Aseswch effaith Rhyfeloedd y Rhosynnau ar gymdeithas Lloegr ar ddiwedd y canoloesoedd.

13. Beth oedd achosion Gwrthryfel Glyndŵr yng Nghymru ar ddechrau'r bymthegfed ganrif? *

Y Cyfnod Modern Cynnar

14. A yw Harri'r VII yn haeddu cael ei ddisgrifio fel 'Moses a waredodd ei bobl o gaethglud'? *

15. A fyddech chi'n cytuno ag awgrym Glanmor Williams nad oedd pasio'r Deddfau Uno yn ddim byd i'w wneud â Chymru? *

16. A oedd Cymru'n wlad Brotestannaidd erbyn 1603? *

17. Ym mha ffyrdd y cynyddodd uchelwyr Cymru eu cyfoeth a'u grym o dan deyrnasiad y Tuduriaid? *

18. Pam na chafodd yr achos seneddol fwy o gefnogaeth ymhlith pobl Cymru? *

19. Pam nad ystyrir mai Camgymeriad Mawr oedd datgysylltiad Harri'r VIII oddi wrth Rufain?

20. I ba raddau, ac ym mha ffyrdd, yr effeithiodd y Dadeni ar Ynysoedd Prydain?

21. A oedd blynyddoedd olaf Elizabeth I yn rhai llawn trafferthion?

22. Pam na fu mwy o wrthwynebiad yn Lloegr a Chymru pan ddaeth Albanwr, a oedd yn oedolyn priod a chanddo blant, i'r orsedd ym 1603?

23. I ba raddau y newidiodd cyfeiriad hanes Prydain pan ddiennyddiwyd Siarl I ym 1649?

24. I ba raddau y gellid dweud bod Prydain o dan y Tuduriaid a/neu'r Stiwartiaid mewn cyflwr cyson o argyfwng cymdeithasol?

25. Pa un o'r trobwyntiau ym Mhrydain yn yr ail ganrif ar bymtheg (17eg) ddylid ei ystyried oedd y chwyldro modern cyntaf: 1642 neu 1688?

26. Aseswch gryfderau a gwendidau unrhyw un o frenhinoedd neu freninesau Prydain yn yr oesoedd canol cynnar.

27. Pa mor ddifrifol oedd problem tlodi ym Mhrydain yng nghyfnod y Tuduriaid a/neu'r Stiwartiaid?

28. Beth oedd achosion y Chwyldro Diwydiannol?

Y Cyfnod Modern

29. 'I ddeall hanes y byd modern rhaid deall hanes ei gyfryngau torfol.' Ydych chi'n cytuno?

30. Pa mor eang oedd y cydymdeimlad ym Mhrydain i'r Chwyldro yn Ffrainc?

31. Esboniwch pam y gwelwyd mudiadau protest ar raddfa mor fawr, terfysgoedd Beca er enghraifft, yng Nghymru yn y 1830au a'r 1840au. *
32. Beth oedd amcanion Siartiaeth?
33. Esboniwch boblogrwydd Dehongliad y Chwigiad o Hanes yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (19eg).
34. At bwy yr oedd Imperialaeth yn apelio, a pham? Trafodwch gan gyfeirio at Brydain yn oes Fictoria ac Edward.
35. A yw'n gywir meddwl bod Rhyddfrydiaeth yn fudiad cenedlaethol yng Nghymru yn y cyfnod 1868-1914? *
36. A oedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn drobwynt yn hanes y Gymru fodern?*
37. A oedd y Blaid Ryddfrydol eisoes ar ei lawr yn derfynol cyn 1914?
38. Aseswch effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar gymdeithas Prydain.
39. 'Ychydig iawn o wahaniaeth i fywydau menywod cyffredin wnaeth ennill yr hawl i bleidleisio ym 1928.' Ydych chi'n cytuno?
40. Pam y cafodd y dirwasgiad rhwng y rhyfeloedd yn yr ugeinfed ganrif effaith mor ddinistriol ar Gymru?*
41. A fu chwyldro cymdeithasol ym Mhrydain yn y 1960au?
42. Mae digwyddiadau coffa canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf wedi symleiddio a gwyrddroi hanes y digwyddiad hwnnw trwy ganolbwyntio'n unig ar y profiad yn y ffosydd.' Ydych chi'n cytuno?